



# Croeso

## Croeso i'n hymgynghoriad cymunedol cyntaf ar y cynigion sy'n ymddangos ar gyfer Fferm Solar Alleston rhwng Penfro a Llandyfái.

## Ynglŷn â Statkraft

→ Cynhyrchydd mwyaf ynni adnewyddadwy yn Ewrop


→ 40 o brosiectau ar waith neu'n cael eu datblygu ledled y DU

→ Yn tarddu o ynni dŵr Norwy dros 125 mlynedd yn ôl

→ Yn gweithredu yn y DU ers 2006 gyda swyddfeydd ledled y DU, gan gynnwys Caerdydd

→ Datblygu, adeiladu a gweithredu gwasanaethau sefydlogrwydd gwynt, solar, hydrogen a grid

→ Dosbarthu dros £4 miliwn i gymunedau ger prosiectau ynni adnewyddadwy




I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru am ddiweddariadau, ewch i www.alleston-solar.co.uk

Statkraft





# Ynglŷn â Fferm Solar Alleston

## Crynodeb o'r prosiect

**49 MW**
Hyd at 49MW o gapasiti amcangyfrifedig yn helpu i bweru Cymru

**15,000**
Ynni adnewyddadwy cyfwerth ag angen tua 15,000 o gartrefi*

**CRONFA BUDD CYMUNEDOL**
Cronfa Budd Cymunedol ar gael gydol oes y prosiect

**CYSYLLTIAD GRID**
lleol ar y safle

Amcangyfrif o
**£50,000**
o ardrethi busnes i Gyngor Sir Penfro bob blwyddyn

** Yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog cartrefi Cymru o 3,325kWh y flwyddyn (DESNZ, Rhagfyr 2022)*

**PANELI SOLAR:**
Caiff y rhain eu hangori yn y ddaear. Bydd paneli uchafswm o 3m o'r ddaear. Bydd y fframwaith sy'n eu cynnal wedi ei wneud o alwminiwm neu ddur. Byddant yn cael eu cysylltu â'i gilydd a'r is-orsaf trwy geblau tanddaearol.


Bydd lleoliad araeau solar yn cael ei osod yn dilyn asesiadau a gynhelir yn rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Weledol a bydd ffotogyfosodiadau yn dangos sut olwg a allai fod arnynt o olygfannau allweddol ar gael yn ystod cam nesaf yr ymgynghoriad.

**CYLCH OES Y PROSIECT:**
Mae gan Fferm Solar Alleston oes ddisgwyliedig o 40 mlynedd. Ar ddiwedd y prosiect, bydd y fferm solar yn cael ei datgomisiynu, a gellir dychwelyd y tir i ddefnydd amaethyddol.

**ADEILADU:**
Os rhoddir caniatâd, bydd adeiladu'r datblygiad yn cymryd tua 6 i 9 mis. Bydd Cynllun Rheoli Traffig (TMP) yn cael ei baratoi cyn dechrau ar y gwaith adeiladu.

## Y broses gynllunio

Gan y bydd gan Fferm Solar Alleston gapasiti cynhyrchu gosodedig o fwy na 10MW o drydan fe'i diffinnir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Mae hyn yn golygu y bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ac yn cael ei ystyried gan Arolygwr, a'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.





Statkraft

# Ystyriaethau Amgylcheddol

## Mae ymchwiliadau safle cynnar wedi dechrau ac mae Statkraft wedi cyflwyno cais cwmpasu i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i sicrhau bod yr astudiaethau amgylcheddol priodol yn cael eu cynnal wrth i'r cynigion gael eu datblygu.

Mae'r broses hon yn caniatáu i gamau cynnar gael eu cymryd i osgoi effeithiau amgylcheddol andwyol ac mae'n llywio mesurau lliniaru angenrheidiol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hymgorffori yn nyluniad y prosiect hwn.

Cynhelir yr astudiaethau hyn gan dîm o ymgynghorwyr arbenigol a byddant yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth a gwelliannau i'w cyflawni yn rhan o'r datblygiad.

**Bydd yr ymchwiliadau amgylcheddol yn cynnwys:**

- → Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol
- → Ecoleg a Bioamrywiaeth
- → Treftadaeth Ddiwylliannol ac Archaeoleg
- → Tir Amaethyddol a Phridd

**Yn rhan o'n dyluniad, byddwn yn sicrhau enillion net bioamrywiaeth.**

Bydd mesurau posibl yn cynnwys:

- → Plannu gwrychoedd a choed newydd
- → Hau hadau blodau gwyllt priodol
- → Sefydlu glaswelltir cymysg addas
- → Rheoli'r tir i greu rhagor o gynefinoedd bywyd gwyllt

Bydd ein cynlluniau yn cael eu llywio gan arolygon ecolegol a chanllawiau statudol, ond rydym am eich syniadau chi hefyd!

## Helpu'r Cacwni ffynnu

Mae Statkraft yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr yn yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn i ddatblygu ffermydd solar sy'n gwella, yn adfer ac yn creu cynefinoedd cacwn, sydd ar hyn o bryd yn gyfyngedig ar y safle.

Bydd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn yn rhoi adborth ar gynefin, rhywogaethau planhigion a thechnegau paratoi tir sy'n galluogi cacwn i ffynnu, a bydd eu cyngor yn llywio cynigion ar gyfer y prosiect.


Bumblebee Conservation Trust
Business Member 2023/24

## Cefnogi Bridiau Da Byw Prin

Mae ein partneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd traddodiadau ffermio, gan ddangos sut y gall hen a newydd gydweithio er budd amgylchedd naturiol iachach, mwy amrywiol.

RBST
Rare Breeds Survival Trust
Corporate Partner
#GoNative
Registered Charity No. 269442





# Buddion Cymunedol

## Rydym yn hoffi i'n prosiectau gael eu hystyried yn rhan o'r gymuned leol. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â'r gymuned i ddysgu am y gwahanol ffyrdd y gallwn ni ddod â buddion cadarnhaol i'r ardal leol.

**Byddwn ni'n gweithio gyda chi i archwilio sut y gall ein cynlluniau wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r ardal leol.**

## Cronfa Budd Cymunedol

Mae Statkraft wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ar gyfer cymunedau lle mae'n gweithredu, a bydd yn darparu Cronfa Budd Cymunedol barhaus ar gyfer y cymunedau cyfagos.

Anelir y gronfa brosiectau hon at grwpiau a sefydliadau lleol yn hytrach nag unigolion, a bydd o fudd i brosiectau a mentrau lleol a gallai gynnwys addysg, effeithlonrwydd ynni, gwelliannau amgylcheddol, a chyfleusterau cymunedol gwell.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch y grwpiau neu brosiectau lleol a allai elwa o'r gronfa, rhowch wybod i ni.

## Buddsoddi lleol

Mae'r perthnasoedd rydym yn eu meithrin gyda chyflenwyr lleol yn helpu ein prosiectau i ddod yn llwyddiannus ac yn darparu buddsoddiad gwerthfawr yn yr ardal leol.

Mae cyfleoedd posibl ar gael i fusnesau lleol o ran gwaith sylfaen, tirlunio, lletygarwch, peirianneg sifil, a chontractau adeiladu. Anogir busnesau lleol i gofrestru yn gyflenwr i'r prosiect, gan ddefnyddio'r "Ffurflen Gofrestru Cyflenwyr Lleol" ar wefan y prosiect.

Rydym yn croesawu syniadau ar sut y gall ein prosiect gefnogi cyfleoedd addysg a chyflogaeth lleol a hybu busnesau lleol.

## Gwelliannau bioamrywiaeth

Rydym yn ceisio mynd ati i wella'r amgylchedd o amgylch ein prosiectau.

Rydym yn targedu isafswm enillion net bioamrywiaeth o 10% o leiaf ac yn gweithio gydag arbenigwyr a grwpiau i gynyddu gwelliannau i fioamrywiaeth leol.





# Adborth a’r camau nesaf

## Diolch am ymweld.

**Mae eich adborth yn bwysig i helpu i lywio’r cynigion sy’n dod i’r amlwg ar gyfer Fferm Solar Alleston.**

## Y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn adolygu ac yn ymateb i sylwadau i’n helpu i lywio’r cynigion terfynol.

Rhowch eich sylwadau i ni erbyn
**15 Rhagfyr 2023**



**AMSERLEN DDANGOSOL:**

- **Hydref/Gaeaf 2023**
  Ymgynghoriad ymgysylltu cynnar ar y cais a’r cyflwyniad cwmpasu.
- **Gaeaf 2023/24**
  Ymchwiliadau ac astudiaethau safle i lywio’r cynigion terfynol.
- **Gwanwyn 2024**
  Ymgynghoriad statudol ar gynigion manwl.
- **Haf 2024**
  Y cais wedi ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW).
- **Gaeaf 2024/25**
  Argymhelliad a ragwelir gan PEDW a phenderfyniad gan Weinidogion Cymru.
- **Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, byddai’r gwaith adeiladu yn cymryd 6-9 mis, felly gallai’r cyfleuster fod yn cynhyrchu trydan gwyrdd erbyn 2026/27.**

Dychwelwch y cerdyn ateb rhadbost a ddarparwyd

Ewch i wefan y prosiect: **www.alleston-solar.co.uk**

**UKProjects@statkraft.com**

Ffoniwch linell gymorth y prosiect: **0800 772 0668**